FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD
CYMRU

# Adroddiad ar Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd

Dinas a Sir Abertawe

25 - 29 Hydref 2004

## Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodaeth cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd i wella diogelwch a hyder y defnyddiwr o ran bwyd. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw gorfodi cyfraith fwyd y DU sy'n gysylltiedig â diogelwch, hylendid, cyfansoddiad a labelu bwyd, bwyd a fewnforiwyd a bwydydd anifeiliaid. Yn bennaf, caiff y swyddogaethau rheoleiddio hyn sy'n perthyn i awdurdodau lleol, eu cynnig drwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae'r adroddiad llawn yn archwilio Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys y trefniadau lleol a weithredir ar gyfer archwilio busnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid, samplo a dadansoddi, rheolaeth fewnol, hyrwyddo diogelwch bwyd a gweithgareddau addysgiadol. Cydnabyddir y ceir cryn amrywiaeth yn y dull a'r modd y gall awdurdodau lleol gynnig eu gwasanaethau gorfodi bwyd, sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol yn ôl 'Y Safon', a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth yn rhan o'r Cytundeb Fframwaith ar Orfodaeth Cyfraith Fwyd Awdurdodau Lleol, ac sydd ar gael ar wefan yr Asiantaeth.

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder defnyddwyr trwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnig gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arfer da a chynnig gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd.

Mae'r adroddiad yn cynnwys peth data ystadegol, er enghraifft, data ar nifer yr arolygiadau a wnaed ar safleoedd bwyd. Mae gwefan yr Asiantaeth yn cynnwys data am weithgareddau gorfodaeth ar gyfer holl awdurdodau lleol y DU.

I'ch cynorthwyo, gellir dod o hyd i restr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio yn yr Atodiad.

# CYNNWYS


| | | Tud. |
|---|---|---|
| 1 | **Cyflwyniad** | **4** |
| | Rheswm am yr Archwiliad | **4** |
| | Cwmpas yr Archwiliad | **4** |
| | Cefndir | **4** |
| 2 | **Crynodeb Gweithredol** | **7** |
| | **Canfyddiadau'r Archwiliad** | |
| 3 | Trefnu a Rheoli | **9** |
| 4 | Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd | **11** |
| 5 | Swyddogion Awdurdodedig | **12** |
| 6 | Cyfleusterau ac Offer | **15** |
| 7 | Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid | **16** |
| 8 | Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd | **20** |
| 9 | Egwyddor yr Awdurdod Cartref | **22** |
| 10 | Cyngor i Fusnesau | **23** |
| 11 | Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid | **24** |
| 12 | Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid | **26** |
| 13 | Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd | **29** |
| 14 | Digwyddiadau Diogelwch Bwyd | **31** |
| 15 | Gorfodaeth | **33** |
| 16 | Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu | **35** |
| 17 | Cwynion am y Gwasanaeth | **37** |
| 18 | Cysylltiad â Sefydliadau Eraill | **38** |
| 19 | Monitro Mewnol | **40** |
| 20 | Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd | **41** |
| 21 | Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid | **42** |
| | **Atodiad** | **44** |
| | Geirfa | |

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau'r archwiliad o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Asiantaeth. Mae copïau caled ar gael o Lyfrgell yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Aviation House, 125 Kingsway, Llundain WC2B 6NH, Ffôn: 020 7276 8181. Mae'r rhain yn destun ffi o £7.50 ar gyfer eu hatgynhyrchu a'u dosbarthu, yn ogystal â £1.50 ar gyfer eu postio a'u pecynnu.

***Rheswm am yr Archwiliad***

1.2 Rhoddodd Deddf Safonau Bwyd 1999 y pwer i'r Asiantaeth Safonau Bwyd osod safonau a monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol. Cynhaliwyd archwiliad y gwasanaeth bwyd yn Ninas a Sir Abertawe o dan adran 12(4) y Ddeddf, yn rhan o raglen archwilio flynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

1.2 Archwiliwyd yr Awdurdod fel rhan o raglen o archwiliadau llawn Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

***Cwmpas yr Archwiliad***

1.3 Cwmpas yr archwiliad oedd gwasanaeth gorfodi cyfraith hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid Abertawe. Cynhaliwyd elfen ar-y-safle'r archwiliad yn swyddfeydd yr Awdurdod yn Neuadd y Ddinas, Abertawe, rhwng 25-29 Hydref 2004.

1.4 Aseswyd cydymffurfiaeth yr Awdurdod yn erbyn Y Safon gan yr archwiliad, gan ddefnyddio protocolau archwilio ASB/AP3/1 - ASB/AP21/1. Mabwysiadwyd Y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000, (diwygiwyd Gorffennaf 2004), ac mae'n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol.

1.5 Gellir dod o hyd i'r Cytundeb Fframwaith a'r protocolau archwilio ar wefan yr Asiantaeth.

***Cefndir***

1.6 Awdurdod Unedol yn ne orllewin Cymru yw Dinas a Sir Abertawe, sy'n cynnwys ardal o ryw 37.809 hectar, gan gynnwys dinas Abertawe ei hun a'r ardal o'i hamgylch. Rhyw 223,000 yw'r boblogaeth breswyl.

1.7 Mae Swyddfeydd y Cyngor ar agor rhwng 8:30am–5:00pm o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 8:30am–4:30pm ddydd Gwener. Adegau eraill, mae'r Cyngor yn gweithredu gwasanaeth brys anffurfiol ar sail ewyllys da y tu allan i oriau gwaith.

1.8 Cofrestrir mwy na 2000 o fusnesau bwyd, a 350 o fusnesau bwydydd anifeiliaid, cymysgwyr ar-y-fferm yn bennaf, gyda'r Awdurdod. Mae busnesau bwyd yn cynnwys adwerthu, gweithgynhyrchu, arlwyo a phrosesu. O dan reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch, mae un ar bymtheg o fusnesau bwyd yn safleoedd Cymeradwy.

1.9 Mae casglu, prosesu a phecynnu cregynbysgod, yn enwedig cocos a chregyn gleision, yn rhan werthfawr o'r economi lleol hefyd.

1.10 Cyfrifoldeb yr Adain Fwyd a Diogelwch yw gorfodi cyfraith hylendid bwyd, cyfrifoldeb yr Adain Safonau Masnach yw gorfodi cyfraith safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid, a chyfrifoldeb yr Adain Hyrwyddo Iechyd yw gweithgareddau hyrwyddo. Mae pob un o'r tair Adain hyn yn rhan o Adran yr Amgylchedd yr Awdurdod.

1.11 Mae lleoliad Abertawe ar yr arfordir a'i statws fel dinas yn ei wneud yn ganolfan bwysig ar gyfer twristiaeth, hamdden, adloniant, chwaraeon a siopa. Mae'r arfordir helaeth yn ffurfio mwy na dwy ran o dair o ffin yr Awdurdod, sy'n cynnwys Penrhyn Gŵyr, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y DU.

1.12 Yn ei Gynllun Gwasanaeth Bwyd, adroddodd yr Awdurdod bod proffil a rhaglen arolygu safleoedd hylendid bwyd fel a ganlyn:

| Categori | Nifer y safleoedd | Arolygiadau arfaethedig 2004 –2005 * |
|---|---|---|
| A | 14 | 28 |
| B | 130 | 130 |
| C | 1031 | 712 |
| D | 281 | 167 |
| E | 310 | 41 |
| F | 170 | 20 |
| Heb eu graddio/arall | 49 | 49 |
| Cyfanswm | 2085 | 1147 |

*Arolygiadau a gynlluniwyd yn unol â Chod Ymarfer Rhif 9.

1.13 Yn ei Gynllun Gwasanaeth Bwyd, adroddodd yr Awdurdod bod proffil a rhaglen arolygu safleoedd safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid fel a ganlyn:

| Categori | Nifer y safleoedd | Arolygiadau arfaethedig 2004 –2005 |
|---|---|---|
| Uchel | 20 | 20 |
| Canolig | 700 | 365 |
| Isel | Heb ei ddatgan | 150 |
| Ffermydd | Heb ei ddatgan | 350 |
| Cyfanswm | | 885 |

***Adnoddau***

1.14 Nodai Cynllun Gwasanaeth 2004-2005 fod gan yr Awdurdod 10.65 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn ymwneud â gorfodi cyfraith fwyd, a gynhwysai staff Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach. Ni nodwyd nifer y staff sy'n ymwneud â gorfodi cyfraith bwydydd anifeiliaid. Fodd bynnag, dim ond 10.2 FTE a restrwyd mewn gwybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod ar gyfer yr archwiliad, gan gynnwys bwydydd anifeiliaid, sef diffyg, gan gynnwys bwydydd anifeiliaid, o 0.45 FTE. Roedd yr Awdurdod wedi hysbysebu dwy swydd yn y Tîm Diogelwch Bwyd ac, adeg yr archwiliad, roedd y broses recriwtio ar y gweill.

1.15 Nodai'r Cynllun Gwasanaeth fod gan yr Awdurdod gyllideb net o £739,500 ar gyfer adain Safonau Masnach, gyda rhyw £20,000 o'r gyllideb hon i'w wario ar samplo a dadansoddi bwyd. Yn yr un modd, clustnodwyd cyllideb net o £585,000 i adain Bwyd a Diogelwch, gyda rhyw £4,500 o hon i'w wario ar samplo a dadansoddi bwyd.

## 2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Roedd yr Awdurdod yn cynnig gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd a weithiai'n agos â busnesau, i'w helpu i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch bwyd. Rhoddwyd cyngor yn ystod arolygiadau ac ymweliadau eraill, a thrwy ddosbarthu ystod eang o ddeunydd perthnasol. Cydnabuwyd pwysigrwydd cynnig hyfforddiant i swyddogion gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid, a mynychwyd nifer o gyrsiau ganddynt ar amrywiaeth o bynciau. Dangosodd yr Awdurdod ymrwymiad i hyrwyddo diogelwch bwyd hefyd, ac roedd wedi ymwneud ag ystod eang o weithgareddau perthnasol.

2.2 Mae rheoli gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid modern, effeithiol ac effeithlon yn dibynnu ar system gyfoes ar gyfer rheoli data a gwybodaeth. Er yr ymddangosai fod system yr Awdurdod, yn y bôn, yn ddiogel ac yn gadarn ac yn gallu perfformio'n effeithiol, nodwyd diffygion sylweddol yn ansawdd a chywirdeb y data adeg yr archwiliad. Cydnabuwyd bod yr Awdurdod eisoes wedi cychwyn mynd i'r afael â nifer o'r problemau a oedd yn gysylltiedig â gweithrediad y gronfa ddata. Nid oedd yr Awdurdod yn cynnal arolygiadau safonau bwyd yn ôl yr amlder sylfaenol sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd, ac nid oedd llawer o dystiolaeth ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau o ran bwydydd anifeiliaid yn effeithiol.

### 2.3 Cryfderau'r Awdurdod

***Hyfforddi***
Rhoddwyd nifer o gyfleoedd i swyddogion gymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi, ac roedd yn amlwg bod y rheiny a oedd yn gorfodi hylendid bwyd yn bodloni gofynion datblygiad parhaus Cod Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

***Cyngor i Fusnesau***
Roedd yr Awdurdod yn gweithio'n weithredol â busnesau i'w helpu i gydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd a safonau bwyd. Cynhwysai hyn ddosbarthu gwybodaeth ynghylch busnes mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys yn ystod arolygiadau rheolaidd ac ymgyrchoedd trylwyr a dargedwyd.

***Hyrwyddo Diogelwch Bwyd***
Dangosodd yr Awdurdod ymrwymiad i hyrwyddo diogelwch bwyd trwy ymwneud ag ystod o weithgareddau gwahanol a gweithio'n agos â'r ysgolion lleol.

## 2.4 Meysydd Allweddol ar gyfer eu Gwella gan yr Awdurdod

***Y Gronfa Ddata***
Roedd cywirdeb y gronfa ddata yn pryderu'r archwilwyr. Mae gwallau'n effeithio ar allu'r gwasanaeth i gynllunio rhaglen waith effeithiol, i gynhyrchu data cynhwysfawr o ran monitro perfformiad, ac yn cyfyngu ar y gallu i gyflenwi ystadegau dibynadwy i lywodraeth ganol.

***Amlder Arolygu Safonau Bwyd***
Nid oedd yr Awdurdod yn cynnal ei arolygiadau safonau bwyd yn ôl yr amlder sylfaenol sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 8. Mae cynnal arolygiadau yn ôl yr amlder sylfaenol yn sicrhau y caiff risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu busnesau bwyd eu nodi mewn da bryd.

***Gorfodi Bwydydd Anifeiliaid***
Bach iawn o dystiolaeth oedd bod yr Awdurdod yn ymgymryd â gweithgaredd priodol o ran gorfodi bwydydd anifeiliaid.

***Amlder Arolygu Safleoedd***
Nid oedd yr Awdurdod yn cynnal ei arolygiadau ar safleoedd yn ôl yr amlder sylfaenol sy'n ofynnol gan Godau Ymarfer Rhif 8 a Rhif 9. Mae cynnal arolygiadau yn ôl yr amlder sylfaenol yn sicrhau y caiff risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu busnesau bwyd eu nodi mewn da bryd.

**Canfyddiadau'r Archwiliad**

## 3 Trefnu a Rheoli

3.1 Roedd gan yr Awdurdod Gynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd ar gyfer 2004 –2005 a gynhwysai orfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. Nodai'r Cynllun Gwasanaeth gysylltiadau priodol â Chynlluniau ac Amcanion Corfforaethol eraill yr Awdurdod.

3.2 Cyfeiriai Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd 2004 - 2005 at Gynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2004 - 2008 'Gwasanaeth Gwell - Perfformiad Gwell', a gymeradwywyd ar 18 Mawrth 2004, ac a sefydlodd y cyfeiriad Strategol a'r blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd.

3.3 Nodai'r Cynllun Corfforaethol genhadaeth, prif nodau a blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Y rhain oedd y canolbwynt i'r Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol, gyda chefnogaeth cyfraniadau gan yr Unedau Gwasanaeth. Roedd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd yn aelod o'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Cynhwysai Adran yr Amgylchedd bedair uned cyflwyno gwasanaeth:

- Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd (gan gynnwys yr holl weithgareddau gorfodi cyfraith fwyd);
- Rheoli ac Amddiffyn yr Amgylchedd;
- Cynllunio Gwasanaethau;
- Cludiant a Pheirianneg.

3.4 Yn fras, lluniwyd Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd 2004 - 2005 yn unol â'r Arweiniad Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith, a chynhwysai broffiliau safleoedd a manylion y rhaglenni arolygu ar gyfer hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.

3.5 Cynhwysai meysydd y Cynllun Gwasanaeth nad oeddent yn bodloni gofynion y Cytundeb Fframwaith ddyraniad ariannol y gwasanaeth, gan fod y manylion yn ei gylch yn anghyflawn. Er y manylwyd y staff a oedd ar gael, nid oedd amcangyfrif o'r staff a oedd yn angenrheidiol i gyflwyno'r gwasanaeth.

3.6 Yn wreiddiol, cymeradwywyd Cynllun Gwasanaeth 2004 – 2005 gan y Cyngor llawn ar 2 Hydref 2003, a llofnododd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd adolygiad ar 23 Awst 2004, yn unol â Chyfansoddiad yr Awdurdod.

3.7 Ni ddogfennwyd yr adolygiad ei hun, ac nid oedd tystiolaeth y nodwyd neu yr aethpwyd i'r afael ag amrywiannau, fel nifer sylweddol yr arolygiadau safonau bwyd a oedd yn hwyr, yn nhrefniadau gwasanaeth y flwyddyn ddilynol.

*Argymhellion*

3.8 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod y Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth yn gwbl unol â'r Arweiniad Cynllunio Gwasanaeth ym Mhennod 1 y Cytundeb Fframwaith. [Y Safon – 3.1]

(ii) Sicrhau y dogfennir ei adolygiad o berfformiad. [Y Safon – 3.2]

(iii) Sicrhau yr eir i'r afael â'r holl amrywiannau o ran bodloni'r Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth yn nhrefniadau gwasanaeth y flwyddyn ddilynol. [Y Safon – 3.3]

## 4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd

4.1 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ar gyfer rheoli dogfennaeth, a system rheoli ansawdd i Adran yr Amgylchedd ac Iechyd, a fwriadwyd i sicrhau y câi polisïau a gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer gweithgareddau gorfodi a gynhwysid yn Y Safon, eu hadolygu a'i diweddaru yn ôl y gofyn.

4.2 Achredwyd y system rheoli ansawdd yn allanol, ac roedd yn cael ei adolygu adeg yr archwiliad i fodloni gofynion ISO 9002.

4.3 Yn rhan o'r system rheoli ansawdd roedd gweithdrefn ddogfenedig, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 1999, i reoli dogfennaeth a gyhoeddwyd yn allanol.

4.4 Cynhyrchwyd polisïau a gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer ystod o weithgareddau gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid a gynhwysid yn Y Safon. Roedd ar rai o'r rhain angen eu hadolygu a'u diweddaru.

4.5 Roedd copïau rheoledig o ddogfennau corfforaethol ar gael i'r holl swyddogion ar y Fewnrwyd gorfforaethol.

4.6 Roedd gan swyddogion fynediad ar-lein at gopïau cyfredol o ddogfennau perthnasol, gan gynnwys deddfwriaeth, Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd, Canllawiau'r Diwydiant, a dogfennaeth briodol arall, a hefyd ar wefan LACORS.

*Argymhelliad*

4.7 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y caiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer pob un o'r gweithgareddau gorfodi a gynhwysir yn Y Safon eu hadolygu. [Y Safon – 4.1]

## 5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 O dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd, gall awdurdodau bwyd awdurdodi swyddogion i ymarfer swyddogaethau penodol neu i weithredu'n gyffredinol. O dan bwerau dirprwyedig yr Awdurdod, awdurdodwyd uwch swyddogion i ymarfer swyddogaethau penodol.

5.2 Cofnodwyd enwau'r swyddogion y rhoddwyd caniatâd iddynt ymarfer pwerau o ran mynd i safleoedd ac awdurdodi rhybuddion, gan gynnwys arolygu, atafaelu a chadw bwyd a chaffael samplau, yn unol â'r pwerau dirprwyedig.

5.3 Fodd bynnag, nid oedd gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer awdurdodi swyddogion o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd, ac nid oedd asesiad dogfenedig o gydymffurfiad â'r rhagofynion awdurdodi a nodwyd yng Nghod Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd, cyn rhoi awdurdod.

5.4 Roedd gan swyddogion a oedd yn cynnal arolygiadau hylendid bwyd gymwysterau a oedd yn briodol i gwmpas eu hawdurdod, er bod un swyddog wedi cynnal arolygiadau hylendid bwyd y tu hwnt i gwmpas ei awdurdod.

5.5 Roedd gan fwyafrif y swyddogion a oedd yn cynnal arolygiadau safonau bwyd gymwysterau priodol. Fodd bynnag, nid oedd yr Awdurdod wedi ceisio cadarnhad gan yr Asiantaeth ynghylch cyfwerthedd cymhwyster safonau bwyd un swyddog, fel sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. Yn ôl cofnodion cyfrifiadurol, cynhaliwyd un arolygiad safonau bwyd isel ei risg gan swyddog nad oedd ganddo'r cymwysterau priodol.

5.6 Awdurdodwyd swyddogion nad oeddent yn gweithio yn yr Adain Bwyd a Diogelwch a'r Adain Safonau Masnach, ac nad oeddent yn gorfodi'r Ddeddf Diogelwch Bwyd yn rheolaidd, o dan y Ddeddf yn unol â pholisi'r adran. Nid oedd tystiolaeth bod y swyddogion hyn wedi cadw at y lleiafswm o 10 awr y flwyddyn o hyfforddiant parhaus sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

5.7 Ni chynhwysai'r pwerau dirprwyedig awdurdodi swyddogion yn benodol i orfodi rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd na Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd, na'r pwer i ganiatáu, gwrthod, neu wahardd trwyddedau siopau cigyddion.

5.8 Roedd yr Awdurdod wedi penodi swyddogion arweiniol priodol â chanddynt gyfrifoldeb am orfodi cyfraith diogelwch bwyd a bwydydd anifeiliaid. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth bod y swyddog arweiniol

ar gyfer safonau bwyd wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol o ran archwilio systemau sicrhau ansawdd.

5.9 Roedd cynllun hyfforddi'r Awdurdod wedi derbyn achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl.

5.10 Ar ddechrau pob blwyddyn, lluniwyd Cynllun Hyfforddiant a Datblygiad Staff blynyddol, a restrai nodau hyfforddiant a datblygiad parhaus cyffredinol a phenodol ar gyfer pob swyddog. Anogwyd swyddogion i nodi cyfleoedd hyfforddi a datblygu ac i ymgymryd â gweithgareddau datblygiad parhaus er mwyn bodloni eu targedau, fel a nodwyd yn y Cynllun Hyfforddi.

5.11 Yn gyffredinol, roedd cofnodion o ran arfarniadau personol, datblygiad a hyfforddiant yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda, er nad oedd rhaglen hyfforddi a oedd yn sicrhau bod anghenion hyfforddiant swyddogion, a nodwyd drwy'r broses datblygu ac arfarnu personol ac a nodwyd yn y cynllun hyfforddi, yn cael eu bodloni'n llawn.

5.12 Fodd bynnag, roedd yn amlwg y rhoddwyd nifer o gyfleoedd i swyddogion fodloni eu hanghenion hyfforddi drwy fynychu ystod eang o gyrsiau a gynhwysai ofynion a gweithdrefnau PACE, CPIA a RIPA, HACCP, lladd anifeiliaid yn anghyfreithlon, cynhyrchion cig, cynhyrchion llaeth a physgodfeydd, yn ogystal ag aseswyr arweiniol.

5.13 Roedd gofynion datblygiad parhaus swyddogion a oedd yn gorfodi cyfraith fwyd yn cael eu bodloni.

5.14 Roedd swyddogion â chanddynt gyfrifoldeb am gymeradwyo ac arolygu safleoedd o dan ddeddfwriaeth hylendid bwyd penodol i gynnyrch, ac am arolygu a thrwyddedu siopau cigyddion, wedi derbyn hyfforddiant o ran egwyddorion ac ymarfer HACCP.

5.15 Roedd y rhan fwyaf o swyddogion a awdurdodwyd i gynnal arolygiadau ar fusnesau bwyd â chanddynt radd risg 'uchel' ar gyfer safonau bwyd, a busnesau bwyd â chanddynt systemau sicrhau ansawdd dogfenedig, wedi'u hyfforddi i lefel aseswr arweiniol sicrhau ansawdd.

*Argymhellion*

5.16 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer awdurdodi swyddogion ar sail eu cymhwysedd ac yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac unrhyw arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 5.1]

(ii) Penodi swyddog arweiniol ar gyfer deddfwriaeth safonau bwyd â chanddo wybodaeth arbenigol briodol. [Y Safon – 5.2]

(iii) Sicrhau bod gan y swyddogion a awdurdodwyd ganddo o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad addas, yn gyson â'u hawdurdod a'u dyletswyddau, ac yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 5.3]

(iv) Sefydlu, cynnal a gweithredu rhaglen hyfforddi ddogfenedig i sicrhau yr hyfforddir yr holl swyddogion awdurdodedig a staff cymorth priodol ynghylch agweddau technegol a gweinyddol y gwaith y maent yn ymwneud ag ef. Lle darperir hyfforddiant, dylid cadw manylion am gynnwys ac amcanion y cwrs, ei barhad ac unrhyw asesiad a wneir o'r hyfforddiant hwnnw, ar ffeil. [Y Safon - 5.4]

(v) Cadw cofnodion am gymwysterau academaidd neu gymwysterau eraill perthnasol, yn ogystal â hyfforddiant a phrofiad pob swyddog awdurdodedig a staff ategol priodol, yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd.
[Y Safon – 5.5].

## 6 Cyfleusterau ac Offer

6.1 Roedd yr Awdurdod wedi peri bod y cyfleusterau a'r offer sy'n angenrheidiol i ganiatáu cynnal y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth, ar gael.

6.2 Nodai Canllawiau'r System Rheoli Calibro, a ddiweddarwyd ym mis Hydref 2003, y gweithdrefnau ar gyfer cynnal a chadw a chalibro offer, gan gynnwys offer monitro a mesur tymheredd, a'u gwaredu o ganfod eu bod yn ddiffygiol. Fodd bynnag, ni fanylwyd amlder y gwiriadau, y dull(iau) o galibro, a'r ffiniau goddefiant derbyniol.

6.3 Câi eitemau o offer monitro tymheredd a ddefnyddid at ddibenion gorfodi eu hadnabod drwy rifau adnabod unigryw a'u cofnodi. Dangosai cofnodion bod gwiriadau calibro'n cael eu cynnal yn rheolaidd, yn unol â'r weithdrefn ddogfenedig.

6.4 Roedd system feddalwedd gyfrifiadurol yr Awdurdod, a ddefnyddid i gofnodi gwybodaeth o ran gweithgarwch gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid, yn gallu darparu gwybodaeth sy'n ofynnol gan Asiantaeth Safonau Bwyd.

6.5 Gweithredid systemau diogelwch ac wrth gefn i leihau'r perygl o lygru neu golli gwybodaeth a ddelid ar y gronfa ddata.

*Argymhelliad*

6.6 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau bod ei weithdrefn ddogfenedig ar gyfer cynnal a chadw a chalibro offer yn cynnwys manylion am amlder gwiriadau, y dulliau o galibro a'r ffiniau goddefiant derbyniol.
[Y Safon – 6.2]

## 7 Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

7.1 Nodai Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd 2004 – 2005 fod rhaglenni arolygu arfaethedig yr Awdurdod ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd i'w cynnal yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

***Hylendid Bwyd***

7.2 Cynhwysai'r weithdrefn ganllaw ddogfenedig ar gyfer arolygiadau hylendid bwyd, a ddiweddarwyd ym mis Awst 2004, arolygiadau hylendid bwyd cyffredinol, ond nid arolygu a thrwyddedu siopau cigyddion nac arolygu a chymeradwyo safleoedd sy'n destun rheoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch.

7.3 Gwiriwyd cofnodion o ran deg safle a arolygwyd o dan reoliadau hylendid bwyd cyffredinol, deg safle a gymeradwywyd ac a arolygwyd o dan reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch, a deg siop gigydd drwyddedig. Dangosai'r rhain y cynhaliwyd arolygiadau yn y busnesau hyn yn ôl yr amlder cywir, fel a bennwyd gan radd risg hylendid bwyd Cod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.4 Dangosai adroddiad a gynhyrchwyd o'r gronfa ddata yn ystod yr archwiliad bod 44 o arolygiadau hylendid bwyd o raglen 2004 - 2005 yn hwyr, gan gynnwys 40 yng nghategorïau risg A-C. Felly, nid oedd arolygiadau hylendid bwyd ar rai safleoedd yn cael eu gwneud yn ôl yr amlder sylfaenol a bennwyd gan y radd risg hylendid bwyd.

7.5 Defnyddiwyd ffurflenni safonol i gofnodi arolygiadau hylendid bwyd cyffredinol ac asesiadau graddio'r risg, gan helpu sicrhau y cynhelid ac y cofnodid arolygiadau yn systematig, ac yn unol â deddfwriaeth berthnasol, Cod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad arall a gyhoeddwyd yn ganolog. Cynhwysai cofnodion o ran yr arolygiadau hyn wybodaeth fanwl.

7.6 Fodd bynnag, ers tynnu'n ôl o ddefnyddio'r ffurflen safonol, canfuwyd nad oedd cofnodion o ran arolygiadau hylendid bwyd diweddar yn cynnwys digon o wybodaeth i ddangos yr ystyriwyd holl agweddau arolygiad.

7.7 I sicrhau y cynhelid arolygiad, dyrannwyd sgôr risg tybiannol i fusnesau newydd yr adroddwyd amdanynt i'r awdurdod ar ffurflenni cofrestru. Fodd bynnag, o'r 58 o safleoedd yn y categori hwn adeg yr archwiliad, roedd nifer ohonynt a gofrestrwyd ers meitin heb gael eu harolygu.

7.8 Dangosai cofnodion o ran y deg siop gigydd gofrestredig nad oedd dwy ohonynt yn bodloni gofynion HACCP ar gyfer trwyddedu pan gawsant eu hasesu, er y cyhoeddwyd y trwyddedau o hyd. Mewn achos arall, nid oedd ffurflen gofnodi ar ffeil ynghylch trwyddedu siop gigydd. Cynhwysai cofnodion ynghylch y saith a oedd yn weddill dystiolaeth yr aseswyd cydymffurfiad â Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) a Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Siopau Cigyddion) (Fel y'i Diwygiwyd) (Cymru) 2000, ac y seiliwyd y penderfyniad i drwyddedu ar asesiad o'r holl feini prawf perthnasol.

7.9 Cynhwysai cofnodion o ran deg safle a gymeradwywyd o dan reoliadau penodol i gynnyrch, grynodeb, manylion ynghylch HACCP, hyfforddiant ar hylendid, rheoli pla a rhaglen lanhau. Ni chynhwysai dwy ffeil adroddiadau arolygu cyn-cymeradwyo. Arolygwyd pob un ohonynt o dan y ddeddfwriaeth gywir.

*Argymhellion*

7.10 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau hylendid bwyd yn ôl amlder nad yw'n llai nag a bennir o dan y system graddio arolygiadau a nodwyd yng Nghod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 7.1]

(ii) Trwyddedu siopau cigyddion yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, Cod Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog.
[Y Safon – 7.2]

(iii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau arolygu dogfenedig ar gyfer trwyddedu siopau cigyddion a chymeradwyo safleoedd penodol i gynnyrch. [Y Safon – 7.4]

***Safonau Bwyd***

7.11 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig o ran ymweliadau Safonau Masnach, a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Gorffennaf 1999, a gynhwysai arolygiadau safonau bwyd. Roedd hyn yn ei wneud yn ofynnol llenwi ffurflen adrodd ôl-arolygu ar gyfer pob arolygiad, a chofnodi manylion am arolygiadau ar y gronfa ddata.

7.12 Defnyddid y ffurflen adrodd ôl-arolygu safonol i grynhoi canlyniadau arolygiadau Safonau Masnach, gan gynnwys safonau bwyd. Gadewid copi gyda'r masnachwr ar ddiwedd yr arolygiad.

7.13 Archwiliwyd cofnodion o ran un ar ddeg o arolygiadau safonau bwyd a wnaed yn ystod y deuddeg mis cyn yr archwiliad. Dangosai'r rhain mai dim ond saith ohonynt a arolygwyd yn ôl yr amlder sylfaenol a bennwyd gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.14 Roedd crynodeb o wybodaeth am weithgaredd arolygu safonau bwyd ar gael ar y gronfa ddata ac mewn ffeiliau, er y cofnodwyd gwybodaeth fanylach yn nodiaduron swyddogion unigol. Fodd bynnag, ni allai swyddogion eraill gael mynediad at y wybodaeth hon yn rhwydd, ac nid oedd ar gael yn rhwydd wrth gynllunio arolygiadau dilynol.

7.15 Dangosai adroddiad a gynhyrchwyd o'r gronfa ddata yn ystod yr archwiliad bod rhyw 500 o arolygiadau safonau bwyd yn hwyr, gan gynnwys un yn y categori risg uchel ac 86 yn y categori risg canolig. Felly, nid oedd arolygiadau safonau bwyd ar safleoedd yn cael eu cynnal yn ôl yr amlder sylfaenol a bennwyd gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd, er y nodwyd y rhoddid blaenoriaeth i safleoedd uchel eu risg.

7.16 O'r 402 o fusnesau isel eu risg yr oedd arolygiadau arnynt yn hwyr, dangosai adroddiad y gronfa ddata y bu mwy na'u hanner i fod i'w gwneud rhwng 1993-1999. Ni roddwyd dyddiad arolygu i un ar hugain o safleoedd y dangosodd yr adroddiad eu bod yn hwyr.

7.17 Dywedwyd wrth yr archwilwyr fod yr Awdurdod yn y broses o gyflwyno cynllun asesu risg newydd LACORS, a bod y rhaglen arolygu yn cael ei hadolygu. Paratowyd ar gyfer strategaeth orfodi amgen ar gyfer busnesau isel eu risg i achub y blaen ar God Ymarfer newydd y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.18

*Argymhellion*

7.18 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau safonau bwyd yn ôl amlder nad yw'n llai nag a bennwyd o dan y system raddio arolygiadau a nodwyd yng Nghod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 7.1]

(ii) Cynnal a gweithredu ei weithdrefn arolygu ddogfenedig ar gyfer arolygiadau safonau bwyd. [Y Safon – 7.4]

***Bwydydd Anifeiliaid***

7.19 Nid oedd gweithdrefn arolygu ddogfenedig ar gyfer arolygu safleoedd bwydydd anifeiliaid.

7.20 Er bod rhyw 350 o fusnesau, cymysgwyr ar-y-fferm yn bennaf, ar gofrestr o safleoedd neu gyfryngwyr yr Awdurdod o dan Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) 1999, nid oedd cofnod yr arolygwyd yr un ohonynt.

7.21 Nid oedd yn amlwg bod yr Awdurdod yn mynd i'r afael â'i gyfrifoldebau o ran gorfodi deddfwriaeth bwydydd anifeiliaid yn effeithiol.

*Argymhellion*

7.22 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau bwydydd anifeiliaid yn ôl amlder nad yw'n llai nag a bennwyd mewn arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 7.1]

(ii) Asesu cydymffurfiad safleoedd bwydydd anifeiliaid Cymeradwy a chofrestredig yn ei ardal â safonau cyfreithiol ragnodedig. [Y Safon – 7.3]

(iii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn arolygu ddogfenedig ar gyfer arolygiadau bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 7.4]

## 8 Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd

8.1 Nodwyd polisi dogfenedig yr Awdurdod ynghylch cwynion am fwyd a bwydydd anifeiliaid yng Nghynllun Cyflwyno Gwasanaeth 2004 – 2005.

8.2 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig, a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2002, a gynhwysai ymchwilio i gwynion am ddiogelwch bwyd. Nodwyd y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion am safonau bwyd yn yr Arweiniad i Arfer Da o ran Gorfodi Safonau Bwyd. Nid oedd gweithdrefn ddogfenedig o ran ymchwilio i gwynion am hylendid safleoedd bwyd na chwynion am fwydydd anifeiliaid.

8.3 Roedd gwybodaeth ar wefan yr Awdurdod hefyd ynghylch sut y gallai aelodau'r cyhoedd gwyno am fwyd, a roddai arweiniad adeiladol ar ragofalon i'w cymryd er mwyn peidio â chyfaddawdu unrhyw ymchwiliad dilynol.

***Hylendid Bwyd***

8.4 Archwiliwyd cofnodion deg cwyn am hylendid bwyd a chofnodion deg cwyn ynghylch safleoedd, ac roedd gwybodaeth briodol ar gael ym mhob achos.

8.5 Dangosai cofnodion yr ymchwilid yn briodol i gwynion, gan gynnwys cyflwyno samplau yr oedd a wnelont â chwynion, i'w harchwilio mewn labordy, cysylltu ag Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol, ac arolygu safleoedd busnesau bwyd. Fodd bynnag, nid oedd yn amlwg bob tro a roddwyd gwybod i'r achwynydd am ganlyniad yr ymchwiliad.

**Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid**

8.6 Archwiliwyd cofnodion 10 o gwynion am safonau bwyd. Fodd bynnag, canfuwyd bod un ohonynt yn gais am gyngor y rhoddwyd y cod anghywir iddo. Roedd cofnodion yn ddigonol i bennu y cynhaliwyd ymchwiliad priodol mewn pump o'r naw achos a archwiliwyd a oedd yn weddill. Yn y pedwar achos arall, roedd y cofnodion yn anghyflawn. Nid oedd digon o wybodaeth i ddangos y cafwyd cysylltiad ag Awdurdod Cartref a Gwreiddiol lle bu'n ofynnol.

8.7 Ni chafwyd unrhyw gwynion am fwydydd anifeiliaid yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

*Argymhellion*

8.8 Dylai'r Awdurdod:

(i) Estyn ei weithdrefnau dogfenedig i gynnwys cwynion am fwydydd anifeiliaid a chwynion am safleoedd bwyd. [Y Safon – 8.1]

(ii) Ymchwilio i gwynion am safonau bwyd a dderbynnir, yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd, arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod. [Y Safon – 8.2]

## 9 Egwyddor yr Awdurdod Cartref

9.1 Nodai Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd 2004 – 2005 fod yr Awdurdod yn cadw at Egwyddor Awdurdod Cartref LACORS.

9.2 Nid oedd unrhyw gytundebau Awdurdod Cartref ffurfiol, ond gweithredid trefniadau anffurfiol â gweithgynhyrchwyr lleol a busnesau bwyd eraill. Yn ddiweddar, cafwyd cysylltiad â chwmnïau hefyd, gyda'r nod o sefydlu mwy o drefniadau ffurfiol o ran bod yn Awdurdod Cartref mewn perthynas â safonau bwyd.

9.3 Yn y Cynllun Gwasanaeth, roedd yr Awdurdod wedi nodi naw o fusnesau bwyd yr oedd yn gweithredu'n Awdurdod Cartref ar eu cyfer o ran materion safonau bwyd.

9.4 Cofrestrwyd deg busnes yr oedd yr Awdurdod yn gweithredu'n Awdurdod Cartref ar eu cyfer ar wefan Fewnrwyd LACORS, pob un ohonynt yn rhestru pwynt cyswllt ar gyfer materion safonau bwyd, er yr ymddangosai nad oedd dau ohonynt yn fusnesau bwyd. Diweddarwyd y cofnodion ym mis Ebrill 2004.

9.5 Cadarnhâi gweithdrefnau dogfenedig y cynhwysid cysylltiad ag Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol, lle'r oedd yn briodol, yng ngweithdrefnau a phrosesau gorfodi'r Awdurdod.

9.6 Roedd gan swyddogion fynediad ar y Rhyngrwyd at gronfa ddata Awdurdodau Cartref LACORS ac felly gallent nodi Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol perthnasol a chysylltiadau ag awdurdodau lleol.

9.7 Dangosai cofnodion a archwiliwyd yn ystod yr archwiliad bod Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn cael ei weithredu ac, yn gyffredinol, y gweithredid yn briodol ynghylch ceisiadau am wybodaeth oddi wrth awdurdodau gorfodi eraill, er y nodwyd bwlch sylweddol o ran gweithgaredd rhagweithiol Awdurdod Cartref rhwng 2002 a haf 2004.

## 10 Cyngor i Fusnesau

10.1 Dangosodd yr Awdurdod ymagwedd ragweithiol at helpu busnesau lleol i gydymffurfio â chyfraith fwyd, fel a ddangoswyd gan nifer y mentrau a weithredwyd neu a oedd yn cael eu gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyrsiau hyfforddiant ar hylendid bwyd mewn nifer o ieithoedd ethnig;
- Arweiniad ynghylch defnyddio lliw bwyd;
- Cyngor ynghylch cyfansoddiad a labelu bwyd;
- Seminarau ymwybyddiaeth HACCP;
- Pecynnau gwybodaeth am ddiogelwch bwyd;
- Defnyddio gwefan yr Awdurdod ar y Rhyngrwyd i beri bod gwybodaeth ar gael i fusnesau;
- Cyngor ynghylch dechrau busnes bwyd newydd.

10.2 Roedd yr Awdurdod wedi targedu sectorau busnes penodol hefyd, gan gynnwys:

- Siopau cigyddion – arweiniad ynghylch cynhyrchion cig a thrwyddedu cigyddion;
- Marchnad Abertawe – cyngor am hylendid bwyd;
- Safleoedd trwyddedig – seminarau i drwyddedigion newydd.

10.3 Roedd tystiolaeth y rhoddid cyngor ar gais ac yn ystod arolygiadau.

10.4 Nid oedd tystiolaeth y rhoddwyd unrhyw gyngor i fusnesau bwydydd anifeiliaid.

*Argymhelliad*

10.5 Dylai'r Awdurdod:

Estyn ei gyngor i fusnesau i gynnwys bwydydd anifeiliaid.
[Y Safon – 10.1]

## 11 Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

11.1 Roedd gan yr Awdurdod gronfa ddata o safleoedd yn ei ardal a oedd yn destun gorfodaeth cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid.

11.2 Nid oedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig i sicrhau bod ei gronfa ddata safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn gywir ac yn gyfredol, er bod gweinyddwyr y system yn cynnal gwiriadau i nodi a chywiro gwallau a phroblemau eraill.

11.3 Dewisodd yr archwilwyr ddeg busnes bwyd ac un busnes bwydydd anifeiliaid ar hap o gategorïau mewn cyfeiriadur busnes lleol. Cofnodwyd naw o'r deg busnes bwyd ar y gronfa ddata, yn yr un modd â'r busnes bwydydd anifeiliaid.

11.4 Cynhwyswyd pob un o'r naw busnes bwyd a oedd ar y gronfa ddata yn y rhaglen arolygu hylendid bwyd arfaethedig. Fodd bynnag, dim ond tri ohonynt a gynhwysid yn y rhaglen arolygu safonau bwyd arfaethedig, a dim ond yn achos y tri busnes hyn yr oedd unrhyw hanes o orfodi safonau bwyd. Nid oedd gan yr Awdurdod gofnod o unrhyw weithgareddau safonau bwyd yn y chwe busnes a oedd yn weddill.

11.5 Dangosai adroddiadau o'r gronfa ddata a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad y cynhwyswyd 2142 o fusnesau bwyd yn y rhaglen arolygu hylendid bwyd, ond dim ond 1380 yn y rhaglen arolygu safonau bwyd, sef gwahaniaeth o fwy na 750 o safleoedd. Dangosai'r ddau adroddiad na raddiwyd risg nifer o safleoedd bwyd, neu y rhoddwyd gradd risg sero iddynt, ar gyfer hylendid bwyd a / neu safonau bwyd.

11.6 Roedd yr archwilwyr yn bryderus o ganfod gwallau sylweddol yn y gronfa ddata a effeithiai ar gywirdeb y data a gofnodid, ac roedd yn amlwg na chofnodid manylion am arolygiadau, graddau risg a gweithredoedd eraill yn fanwl gywir ar y gronfa ddata bob tro.

11.7 Cynhwysai'r gwallau amlderau arolygu anghywir, dyddiadau arolygiadau nesaf yn eisiau, gweithgareddau heb gael eu cofnodi, a chodio anghyson. Ni roddwyd y cod cywir i rai gweithgareddau, a dyblygwyd eraill. Arweiniai hyn at fylchau a gwallau yn hanes busnesau, a gwallau yn y data am weithgaredd gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid sy'n ofynnol gan Asiantaeth Safonau Bwyd.

11.8 Fodd bynnag, cydnabu'r archwilwyr bod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd o ran ymdrin â nifer o'r problemau â'r gronfa ddata a amlygwyd yn ystod yr archwiliad.

11.9 Cynhwysai mesurau a gyflwynwyd i sicrhau cywirdeb o ran manylion am safleoedd wirio yn erbyn ceisiadau am wasanaeth ag adrannau eraill y cyngor, hysbysebion yn y wasg a chynnal arolygon.

*Argymhelliad*

11.10 Dylai'r Awdurdod:

Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig i sicrhau bod ei gronfa ddata safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn gywir ac yn gyfredol. [Y Safon – 11.2]

## 12 Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

### *Hylendid Bwyd*

12.1 Nodwyd ymagwedd yr Awdurdod at samplo hylendid bwyd yng Nghynllun Gwasanaeth 2004 – 2005, ac yn nogfen ddrafft canllawiau'r system rheoli ansawdd, dyddiedig Rhagfyr 2003.

12.2 Roedd rhaglen samplo hylendid bwyd ddogfenedig ar gyfer 2004 –2005 a gynhwysai bwyd a gynhyrchid yn lleol a chyfranogi mewn arolygon a gyd-drefnwyd a, hefyd, roedd yr Awdurdod wedi sefydlu rhaglen samplo gynhwysfawr i fonitro diogelwch ac ansawdd cregynbysgod a bara lawr a gynhyrchid yn lleol.

12.3 Archwiliwyd cofnodion deg o samplau hylendid bwyd. Dangosai'r rhain yr anelid samplo at amrywiaeth o gynnyrch lleol, ac y cafwyd samplau yn unol â'r rhaglen samplo hylendid bwyd arfaethedig.

12.4 Roedd canlyniadau samplo ar gael ym mhob achos ac, yn gyffredinol, dangosai cofnodion y cofnodwyd canlyniadau'n gywir ac y cymerwyd camau dilynol priodol ynghylch y rheiny yr adroddwyd eu bod yn anfoddhaol. Cynhwysai camau dilynol gymryd mwy o samplau, ymweld â safleoedd a'u harolygu, a chydweithio ag Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol.

12.5 Mewn nifer fach o achosion, fodd bynnag, arweiniodd gwallau wrth gofnodi canlyniadau a chamau dilynol ar y gronfa ddata at yr Awdurdod yn tan-adrodd ei waith samplo hylendid bwyd i Asiantaeth Safonau Bwyd.

12.6 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig, a ddiweddarwyd ym mis Hydref 2004, o ran cadw, atafaelu ac ildio bwyd a ddrwgdybir, yn wirfoddol.

12.7 Archwiliwyd cofnodion o ran chwe achos o ildio bwyd yn wirfoddol i'w ddinistrio yr ymdriniwyd â nhw gan yr Awdurdod yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad. Nodai tystysgrifau ildio bwyd yn wirfoddol yr ildiwyd y bwyd perthnasol i'r swyddog a lofnododd y dystysgrif ond, ym mhedwar o'r chwe achos, nid oedd cofnod a ddangosai sut, ble na phryd y gwaredwyd y bwyd.

12.8 Ni chafwyd unrhyw achosion ffurfiol o atafaelu neu gadw bwyd o ran materion hylendid bwyd yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

***Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid***

12.9 Roedd gan yr Awdurdod bolisi a gweithdrefn samplo dogfenedig ar gyfer samplo safonau bwyd, a rhaglen samplo safonau bwyd ar sail risg.

12.10 Ymgymerid â samplo safonau bwyd, a anelwyd at amrywiaeth o gynhyrchion a weithgynhyrchid ac a gynhyrchid yn lleol, gyda chyfranogiad mewn arolygon a gyd-drefnwyd, yn unol â'r rhaglen samplo. Roedd gweithgaredd samplo yn amlwg o ran cwynion am fwyd hefyd.

12.11 Archwiliwyd cofnodion o ran deg sampl safonau bwyd. Roedd canlyniadau samplau ar gael ym mhob achos ac, yn gyffredinol, cymerwyd camau dilynol priodol ynghylch y rheiny yr adroddwyd eu bod yn anfoddhaol.

12.12 Adroddodd yr Awdurdod ei fod wedi ymgymryd â rhai gweithgareddau ildio bwyd yn wirfoddol o ran bwydydd a oedd wedi dyddio, er na chofnodwyd y manylion.

12.13 Roedd gan yr Awdurdod bolisi a gweithdrefn samplo dogfenedig ar gyfer samplau bwydydd anifeiliaid hefyd.

12.14 Cymerwyd tri sampl bwydydd anifeiliaid anffurfiol yn ystod y chwe mis cyn yr archwiliad, a dangosai cofnodion y cymerwyd y rhain yn unol â'r rhaglen arfaethedig. Adroddwyd bod pob un o'r tri sampl yn foddhaol.

12.15 Ymddangosai fod dogfennaeth o ran penodiadau Dadansoddwr Cyhoeddus a Dadansoddwr Amaethyddol yr Awdurdod yn anghyson â gofynion i benodi unigolion a fodlonai feini prawf penodi penodedig i'r swyddi hyn.

*Argymhellion*

12.16 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau yr ildir bwyd yn wirfoddol yn gwbl unol â deddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 12.1]

(ii) Estyn a gweithredu'r datganiad polisi dogfenedig ynghylch samplo hylendid bwyd a gynhwysir yn y canllawiau drafft ar samplo. [Y Safon – 12.4]

(iii) Gweithredu'r weithdrefn hylendid bwyd ddogfenedig ar gyfer cael neu brynu samplau, cysondeb tystiolaeth ac atal dirywiad neu ddifrod i samplau, fel a gynhwysir yn y canllawiau drafft ar samplo. [Y Safon – 12.5]

(iv) Adolygu a diweddaru ei benodiadau Dadansoddwr Cyhoeddus a Dadansoddwr Amaethyddol gan gymryd i ystyriaeth holl ofynion cyfreithiol perthnasol Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Codau Ymarfer cysylltiol y Ddeddf Diogelwch Bwyd a Deddf Amaethyddiaeth 1970. [Y Safon – 12.8]

## 13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd

13.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu polisi a gweithdrefn ddogfenedig o ran rheoli achosion o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd. Datblygwyd y weithdrefn ar y cyd gan yr Awdurdod a sefydliadau perthnasol eraill, yn unol ag arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog ac, yn ddiweddar, cafodd ei adolygu a'i ddiweddaru.

13.2 Nid oedd tystiolaeth bod yr awdurdod wedi mabwysiadu neu ardystio'r Cynllun Rheoli Achosion yn ffurfiol yn bolisi a gweithdrefn swyddogol iddo.

13.3 Archwiliwyd dau ddigwyddiad a fodlonai'r diffiniad o achos o wenwyn bwyd. Ymchwiliwyd i'r ddau ohonynt, cymerwyd samplau a sbesimenau priodol lle bu'n ofynnol, a chymerwyd camau dilynol ynghylch gwybodaeth a gafwyd drwy gyfweliadau achos a chysylltiadau.

13.4 Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth i ddangos yr ystyriwyd eithrio achosion neu gysylltiadau, ac nid oedd yn bosibl cadarnhau y cynhaliwyd yr ymchwiliadau yn gwbl unol â'r Cynllun Rheoli Achosion.

13.5 Yn ogystal â'r Cynllun Rheoli Achosion, roedd gweithdrefn ddogfenedig a ddrafftiwyd yn ddiweddar ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol o glefydau a gludir gan fwyd. Dywedwyd wrth yr archwilwyr y câi'r weithdrefn ei hymgorffori yn y system rheoli ansawdd gyda hyn.

13.6 Roedd yr Awdurdod wedi cyflwyno llythyrau safonol a nifer o ddogfennau arweiniol hefyd, a roddai wybodaeth am heintiadau penodol.

13.7 Archwiliwyd rhybuddion o ran pob un o'r wyth achos achlysurol o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd. Roedd cofnodion o rybuddion ac ymchwiliadau ar gael ym mhob un o'r wyth achos, er nad oedd yn amlwg yr ymchwiliwyd i achosion yn unol â'r weithdrefn ddogfenedig.

13.8 Nid oedd y cofnodion am yr achosion achlysurol yn cynnwys digon o wybodaeth i bennu a gynhaliwyd ymchwiliad priodol.

13.9 Cadwyd cofnodion am gyfnod o chwe blynedd.

*Argymhellion*

13.10 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y caiff ei weithdrefn ddogfenedig o ran rheoli achosion o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd, ei gweithredu'n llawn.
[Y Safon – 13.1]

(ii) Sicrhau y caiff ei weithdrefn ddogfenedig o ran ymchwilio i rybuddion am glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd, ei gweithredu'n llawn.
[Y Safon – 13.2]

## 14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

14.1 Roedd gan yr Awdurdod system gyfrifiadurol a allai dderbyn Rhybuddion Perygl Bwyd. Derbynnid y rhain gan Arweinwyr Tîm yr Adain Fwyd a'r Adain Safonau Masnach a'u dirprwyon, a'u hanfon ymlaen at aelodau tîm eraill drwy negeseuon e-bost.

14.2 Roedd polisi a gweithdrefn ddogfenedig, a ddiweddarwyd ym mis Awst 2004, ar gyfer ymdrin â Rhybuddion Perygl Bwyd, er nad oedd ei drefniadau y tu allan i oriau gwaith yn gynwysedig, ac ni chynhwysai'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i Asiantaeth Safonau Bwyd am ddigwyddiadau a ddigwyddai'n lleol, y manyldeb angenrheidiol.

14.3 Archwiliwyd cofnodion sampl o Rybuddion Perygl Bwyd a gyhoeddwyd gan Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod y chwe mis cyn yr archwiliad. Roedd nifer o'r Rhybuddion Perygl Bwyd hyn yn ei wneud yn ofynnol i'r Awdurdod weithredu.

14.4 Roedd cofnodion ynghylch yr holl Rybuddion Perygl Bwyd a wiriwyd ar gael ar ffurf electronig, er na chofnodwyd y camau a gymerwyd a'r canlyniadau'n llawn ymhob achos.

14.5 Pan fu'n ofynnol gweithredu er mwyn ymateb i Rybudd Perygl Bwyd, dangosai cofnodion y seilid hyn, yn gyffredinol, ar wybodaeth leol a'i fod yn briodol. Cyhoeddwyd datganiadau i'r wasg leol, a gosodwyd gwybodaeth ar wefan Fewnrwyd yr Awdurdod pan ystyriwyd ei fod yn briodol gwneud hynny.

14.6 Nid chafwyd unrhyw ddigwyddiadau lleol yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad yr oedd yn ofynnol rhoi gwybod i Asiantaeth Safonau Bwyd amdanynt.

*Argymhellion*

14.7 Dylai'r Awdurdod:

(i) Estyn ei weithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymateb i Rybuddion Perygl Bwyd i gynnwys trefniadau cysylltu y tu allan i oriau gwaith. [Y Safon – 14.1]

(ii) Dogfennu ei ymateb i'r holl Rybuddion Perygl Bwyd a dderbynnir, a'u canlyniadau. [Y Safon – 14.3]

(iii) Estyn, cynnal a gweithredu ei weithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau diogelwch bwyd. [Y Safon – 14.4]

## 15 Gorfodaeth

15.1 Roedd gan yr Awdurdod Siarter Rheoli a Gorfodi a Pholisi Rheoli a Gorfodi ar gyfer Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd ac Iechyd, y ddau ohonynt wedi'u cymeradwyo gan yr Aelodau ym 1997, a'u diweddaru a'u hail-gymeradwyo yn 2002. Roedd copïau ar gael ar wefan yr Awdurdod.

15.2 Nid oedd cwmpas y polisi'n cynnwys ystod lawn dewisiadau cyfraith fwyd, er enghraifft, gweithdrefnau gwirfoddol.

***Hylendid Bwyd***

15.3 Roedd yr Awdurdod wedi defnyddio rhybuddion ysgrifenedig a Rhybuddion Gwella i gyflawni cydymffurfiaeth â deddfwriaeth hylendid bwyd. Cyhoeddwyd pedwar deg saith o Rybuddion Gwella o ran 20 o safleoedd yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad.

15.4 Gwnaed penderfyniadau gorfodi o ran materion hylendid bwyd yn unol â'r Siarter Rheoli a Gorfodi a'r Polisi Rheoli a Gorfodi, a chymerwyd amgylchiadau penodol pob achos i ystyriaeth. Yn yr achosion a archwiliwyd gan yr archwilwyr, ymddangosai y bu'r penderfyniadau hyn yn rhai cytbwys a chywir.

15.5 Archwiliwyd cofnodion o ran deg Rhybudd Gwella a'u gwirio yn erbyn arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, polisi gorfodi'r Awdurdod, a gweithdrefnau dogfenedig perthnasol.

15.6 Cyflwynwyd Rhybuddion Gwella o dan amgylchiadau priodol gan swyddogion a awdurdodwyd yn briodol. Mewn wyth o'r deg achos, roedd tystiolaeth y cymerwyd camau dilynol o ran Rhybuddion Gwella i sicrhau cydymffurfio.

15.7 Fodd bynnag, ni roddwyd cyfeiriad y llys lleol yn yr un o'r deg achos, a chyfeiriwyd dau rybudd at y perchennog gan ddefnyddio ei lythrennau blaen ef/ei llythrennau blaen hi yn hytrach na'i enw/henw llawn. Mewn tri achos, caniatawyd mwy o amser i gydymffurfio lle gwnaed cais amdano, ond ni chadarnhawyd y cais yn ysgrifenedig, ac ni chofnodwyd y dull o gyflwyno'r rhybudd mewn un achos.

***Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid***

15.8 Roedd yr Awdurdod wedi defnyddio rhybuddion ysgrifenedig, rhybuddion ffurfiol ac erlyniadau i gael cydymffurfiad â deddfwriaeth safonau bwyd.

15.9 Roedd yr Awdurdod wedi cyhoeddi 3 rhybudd ffurfiol ac ymgymryd â 2 erlyniad yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad. Ystyrid bod yr holl gamau'n rhai priodol, wedi'u cymryd o dan y ddeddfwriaeth gywir a heb unrhyw oedi dianghenraid. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth y rhoddwyd ystyriaeth i Siarter Rheoli a Gorfodi a Pholisi Rheoli a Gorfodi'r Awdurdod, PACE na RIPA.

15.10 Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw weithdrefnau dogfenedig ar gyfer camau dilynol a chamau gorfodi.

15.11 Roedd pwerau dirprwyedig yr Awdurdod yn aneglur o ran a oedd gan swyddogion a oedd wedi penderfynu awdurdodi a chychwyn erlyniad, neu gyhoeddi rhybudd ffurfiol, y pwer dirprwyedig i wneud hynny.

15.12 Er bod yr Awdurdod wedi ymgymryd ag erlyniadau a rhybuddion ffurfiol yn ystod 2003 - 2004, nodwyd na adroddwyd am unrhyw erlyniadau na rhybuddion ffurfiol yn ei ffurflenni monitro chwarterol i Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer yr un cyfnod.

*Argymhellion*

15.13 Dylai'r Awdurdod:

(i) Estyn a gweithredu ei Bolisi Rheoli a Gorfodi yn unol â Chodau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd.
[Y Safon – 15.1]

(ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer yr holl gamau dilynol a chamau gorfodi, yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad swyddogol.
[Y Safon – 15.2]

(iii) Sicrhau y gwneir penderfyniadau ynghylch camau gorfodi ar ôl ystyried polisi gorfodi'r Awdurdod. Dylid dogfennu'r rhesymau am unrhyw wyriad o'r meini prawf a nodwyd yn y polisi gorfodi. [Y Safon – 15.4]

## 16 Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu

16.1 Cofnodwyd arolygiadau o dan Reoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) ar ffurflen safonol ar gyfer adrodd am arolygiadau tan ryw 12 mis cyn yr archwiliad. Roeddent yn cynnwys gwybodaeth fanwl o ran holl agweddau'r arolygiad hylendid bwyd. Roedd rhoi'r gorau i ddefnyddio'r ffurflenni hyn wedi arwain at gofnodi gwybodaeth a oedd lawer yn llai cynhwysfawr.

16.2 Yn gyffredinol roedd cofnodion ac adroddiadau arolygu o ran safleoedd a gymeradwywyd o dan Reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch a siopau cigyddion trwyddedig, wedi'u cadw'n dda.

16.3 Cynhwysai cofnodion ffeil a chofnodion ar y gronfa ddata ffurflenni cais a chofnodion arolygu a lenwyd, a manylion am y busnesau a'r gweithrediadau a wnaed, a'i gwnaeth yn bosibl pennu y seiliwyd penderfyniadau i gymeradwyo neu i drwyddedu siopau, yn gyffredinol, ar feini prawf perthnasol.

16.4 Arweiniai anghysondebau yn y ffordd y cofnodwyd arolygiadau safonau bwyd at brinder gwybodaeth i bennu a gynhaliwyd arolygiad trylwyr a chymwys. Mewn rhai achosion, roedd prinder gwybodaeth hefyd o ran proffiliau busnes a disgrifiadau o'r gweithgareddau a wnaed ac, felly, nid oedd cofnodion yn bodloni holl ofynion Cod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

16.5 Dangosai gweithgareddau samplo hylendid bwyd a safonau bwyd, y targedwyd samplo'n briodol ac, yn gyffredinol, y cymerwyd camau dilynol o ran canlyniadau anfoddhaol. Fodd bynnag, roedd rhai gwallau o ran cofnodi gweithgareddau samplo bwyd ar y gronfa ddata.

16.6 Dangosai manylion am y Rhybuddion Gwella a gofnodwyd y dilynwyd y Polisi Gorfodi ac y bodlonwyd gofynion statudol, er nad oedd hyn yn wir yn achos rhybuddion ffurfiol ac erlyniadau yn ymwneud â materion safonau bwyd.

16.7 Roedd i gofnodion am safleoedd a gofrestrwyd o dan Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) 1999 ddiffyg manylion, ac nid oeddent wedi cael eu hadolygu na'u diweddaru ers adeg gweithredu'r Rheoliadau am y tro cyntaf.

*Argymhelliad*

16.8 Dylai'r Awdurdod:

Gynnal cofnodion cyfredol a chywir ar ffurf adferadwy ar gyfer yr holl safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal, yn unol â Chodau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog.
[Y Safon – 16.1]

## 17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu a gweithredu Gweithdrefn Gwyno Gorfforaethol.

17.2 Cyhoeddwyd crynodeb o'r weithdrefn gorfforaethol, ac roedd ar gael o Adeiladau Dinesig ac ar wefan yr Awdurdod.

17.3 Roedd gweithdrefn ddogfenedig hefyd, a ddiweddarwyd ym mis Awst 2004, a nodai drefniadau'r adran ar gyfer gweithredu'r weithdrefn gorfforaethol o ran cwynion am y gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid.

17.4 Derbyniwyd un gwyn ffurfiol yn erbyn y gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad. Cadarnhâi cofnodion yr ymchwiliwyd i'r gwyn hon yn unol â'r weithdrefn gorfforaethol ac iddi gael ei datrys yn briodol.

## 18 Cysylltiad â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr Awdurdod drefniadau cysylltu ag awdurdodau cyfagos a chyrff eraill, gyda'r nod o hwyluso gorfodaeth a oedd yn gyson. Roedd y rhain yn cynnwys cyfranogiad yn y canlynol:

- Penaethiaid Safonau Masnach Cymru;
- Grwp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru;
- Cyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd Cymru;
- Grwp Gorchwyl Clefydau Trosglwyddadwy De-Orllewin Cymru;
- Grwp Safonau Bwyd ac Amaethyddol De a Gorllewin Cymru;
- Grwp Gorchwyl Diogelwch Bwyd De-Orllewin Cymru;
- Grwp Safonau Bwyd ac Amaethyddol dros Gymru;
- Pwyllgor Cyswllt Cregynbysgod De-Orllewin Cymru;
- Grwp Zoonoses De-Orllewin Cymru.

18.2 Cadarnhaodd cofnodion cyfarfodydd grwpiau cyswllt y cafwyd presenoldeb rheolaidd gan gynrychiolwyr priodol y gwasanaethau gorfodi bwyd a bwydydd anifeiliaid.

18.3 Hefyd, roedd gan yr Awdurdod drefniadau i gydweithio'n weithredol â:

- Phwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru;
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru;
- Y Gwasanaeth Hylendid Cig;
- Cydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol;
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig;
- Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu;
- Awdurdodau lleol eraill;
- Yr Awdurdod Iechyd a chyrff olynol;
- Y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol;
- Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe;
- Y Dadansoddwr Cyhoeddus;
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol.

18.4 Roedd ymrwymiad yr Awdurdod i rannu arbenigedd a chefnogi mentrau'r Awdurdod, a ddangoswyd gan y ffaith yr enwebwyd un o'i

swyddogion i wasanaethu yng Ngrwp Gorchwyl Cig Anghyfreithlon, yn arbennig o nodedig.

## 19 Monitro Mewnol

19.1 Nid oedd gan yr Awdurdod weithdrefn monitro mewnol ddogfenedig ar gyfer monitro ansawdd a chysondeb arolygiadau, na chynnydd ei raglenni arolygu arfaethedig yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

19.2 Roedd peth tystiolaeth o fonitro meintiol yn erbyn y rhaglenni arolygu arfaethedig, ac o roi blaenoriaeth i arolygu safleoedd uchel eu risg. Cynhwysai hyn adrodd chwarterol, dadansoddi adroddiadau ar weithgareddau'r gronfa ddata yn fisol, a gwiriadau yn erbyn ceisiadau am wasanaeth.

19.3 Dywedwyd wrth yr archwilwyr y cynhaliwyd monitro ansoddol hefyd. Cynhwysai hyn wirio dogfennaeth a gohebiaeth a oedd yn gysylltiedig â chamau gorfodi ffurfiol, ymweliadau yng nghwmni rhywun arall, a sefydlu aelodau newydd o staff.

19.4 Adroddai'r Cyfarwyddwr i gydweithwyr uwch-reoli yn rheolaidd ar fonitro perfformiad a rheoli ariannol.

19.5 Nid oedd llawer o dystiolaeth y cofnodwyd yr holl weithgaredd monitro mewnol a adroddwyd.

*Argymhellion*

19.6 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau monitro mewnol dogfenedig yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 19.1]

(ii) Gwirio ei gydymffurfiad â holl agweddau perthnasol Y Safon, deddfwriaeth, Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd, arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod ei hun. [Y Safon - 19.2]

(iii) Cadw cofnodion ynghylch yr holl fonitro mewnol am o leiaf 2 flynedd. [Y Safon – 19.3]

## 20 Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd

20.1 Cyfranogodd yr Awdurdod yn adolygiad dogfennau ac archwilio cydymffurfiad rhyng-awdurdod o hylendid bwyd ar draws Cymru ym mis Hydref 1999.

20.2 Amlygwyd ymrwymiad yr Awdurdod i'r fath ymarferion drwy gyfranogiad yn yr Archwiliad Rhyng-Awdurdod o Iechyd a Diogelwch sydd ar ddigwydd, ac adolygiad peilot diweddar o'r Gwasanaeth Safonau Masnach.

20.3 Achredwyd yr Awdurdod hyd at ISO 9002 ac, adeg yr archwiliad, roedd yn adolygu ei system ansawdd wrth baratoi i wneud cais i gorff achredu arall. Roedd gweithgor yn rheoli'r prosiect adolygu, ac roedd wedi paratoi rhaglen o archwiliadau cydymffurfio mewnol gan swyddogion a oedd yn annibynnol ar y gwasanaeth a oedd yn cael ei archwilio.

20.4 Dyfarnwyd Marc Ansawdd Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol i'r gwasanaeth cynghori defnyddwyr.

## 21 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

21.1 Dangosodd yr Awdurdod ymrwymiad i hyrwyddo diogelwch a safonau bwyd.

21.2 Roedd gan yr Awdurdod adain Hyrwyddo Iechyd yn benodol at ddiben cynyddu ymwybyddiaeth o iechyd, diogelwch a ffyrdd iach o fyw i uchafu iechyd a lles trigolion.

21.3 Cyd-drefnodd yr adain Hyrwyddo Iechyd y digwyddiad 'Criw Craff' yn 2004, a gynigiwyd i'r holl ysgolion cynradd yn yr ardal. Nod y cynllun oedd amlygu materion cyfoes o ran ffordd o fyw diogel ac iach, ac fe'i cynigiwyd ar y cyd gan bartneriaeth amlasiantaeth.

21.4 Gweithiai'r Awdurdod yn agos ag ysgolion i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiogelwch bwyd a safonau bwyd i blant. Canolbwyntiodd ymgyrch wythnos diogelwch bwyd 2004 ar olchi dwylo, a chynhyrchwyd dyluniadau buddugol o gystadleuaeth bosteri i'w dosbarthu'n ehangach. Roedd safonau bwyd ymysg ystod eang o faterion defnyddwyr a gynhwyswyd yng nghystadleuaeth Defnyddiwr Ifanc y Flwyddyn.

21.5 Roedd tystiolaeth bod yr Awdurdod yn cyfranogi mewn ystod o weithgareddau hyrwyddo diogelwch bwyd a safonau bwyd hefyd, ac roedd cynlluniau am ragor o waith yn y maes hwn. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Hyfforddiant ar hylendid bwyd;
- Wythnos Genedlaethol y Defnyddwyr;
- Gwobrau Hylendid Bwyd Cymru;
- Canllaw Bwyta Dim Ysmygu;
- Diwrnod Ymwybyddiaeth o Hylendid Bwyd Canolfan Ymchwil ac Arbenigedd Iechyd a'r Amgylchedd;
- Ymgyrch Barbeciw;
- Dosbarthu taflenni;
- Hyrwyddo'r gwasanaeth ar y wefan ac yn y cyfryngau.

21.6 Nid oedd tystiolaeth o unrhyw weithgarwch hyrwyddo o ran bwydydd anifeiliaid.

| | |
|---|---|
| | *Argymhelliad* |
| 21.7 | Dylai'r Awdurdod:<br><br>Estyn ei weithgaredd hyrwyddo i gynnwys bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 21.1] |

**Archwilwyr:** **Jane Davies**
Rob Wilkins
Lindsay Horth
Keith Blake
Tony Wheale

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11 Ty Southgate
Stryd Wood
Caerdydd
CF10 1EW

# Geirfa

| | |
|---|---|
| Dadansoddwr Amaethyddol | Rhywun, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwydydd anifeiliaid. |
| Safleoedd cymeradwy | Safle gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwyir gan yr awdurdod lleol, yng nghyd-destun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddir cod adnabod unigryw iddo sy'n berthnasol mewn masnach genedlaethol a/neu ryngwladol. |
| Swyddog awdurdodedig | Swyddog cymwys addas a awdurdodir gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth, er enghraifft, orfodi deddfwriaeth. |
| Gwerth Gorau * | Polisi Llywodraethol â'r nod o wella perfformiad llywodraeth leol wrth ddarparu gwasanaethau i gymunedau lleol – o addysg a gofal i'r henoed, i iechyd yr amgylchedd a chynnal ffyrdd. Nod Gwerth Gorau yw sicrhau bod lefel cost ac ansawdd y gwasanaethau hyn yn dderbyniol i bobl leol trwy:<br>• gynyddu rôl pobl leol wrth benderfynu blaenoriaethau gwasanaethau llywodraeth leol<br>• gwella'r ffordd y mae awdurdodau'n rheoli ac yn adolygu eu busnes<br>• adeiladu ar brofiad ac arbenigedd staff.<br><br>* Yng Nghymru, disodlwyd hyn yn ddiweddar gan Raglen Cymru ar gyfer Gwella |
| Arolygfeydd Ffin | Man dyfod i'r DU o wledydd y tu allan i'r UE i gynnyrch sy'n deillio o anifeiliaid. |
| Codau Ymarfer | Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddir o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch gorfodi deddfwriaeth bwyd. |
| Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (SIA) | Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd. |

| | |
|---|---|
| Bwydydd Anifeiliaid | Term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth i ddisgrifio cymysgeddau bwyd i anifeiliaid fferm ac anifeiliaid anwes. |
| Archwiliwr Bwyd | Person â'r cymwysterau rhagnodedig sy'n cynnal dadansoddiadau microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol. |
| Rhybuddion Perygl Bwyd | Mae hwn yn system a weithredir gan Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol o ran diogelwch bwyd. |
| Hylendid bwyd | Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys diogelwch ac iachusrwydd bwyd. |
| Safonau bwyd | Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd. |
| Cytundeb Fframwaith | Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys:<br>• Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd<br>• Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth<br>• Cynllun Monitro<br>• Cynllun Archwilio<br><br>Mae'r **Safon** a'r **Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth** yn nodi disgwyliadau'r Asiantaeth ynghylch cynllunio a darparu gorfodaeth cyfraith fwyd.<br><br>Mae'r **Cynllun Monitro** yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno ffurflenni chwarterol i'r Asiantaeth am eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau.<br><br>O dan y **Cynllun Archwilio** bydd Asiantaeth Safonau Bwyd yn archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn ôl y meini prawf a nodwyd yn y Safon. |
| Ffigur Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) | Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan hwnnw o amser swyddog unigol sydd ar gael ar gyfer swyddogaeth neu gyfres o ddyletswyddau penodol. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gall unigolion fod yn gweithio'n |

| | |
|---|---|
| | rhan amser, neu y gall fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â gorfodaeth fwyd. |
| HACCP | Pwynt Rheoli Critigol ar gyfer Dadansoddi Peryglon – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i nodi pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle mae'n hanfodol i ddiogelwch bwyd y cynhelir y mesur rheoli yn gywir, a thrwy hynny ddileu neu leihau'r perygl i lefel sy'n ddiogel. |
| Awdurdod Cartref | Awdurdod lle ceir sylfaen benderfynu berthnasol menter, ac sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am gynghori'r busnes hwnnw ynghylch materion yn ymwneud â diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill, o ran polisïau a gweithdrefnau'r cwmni hwnnw sy'n gysylltiedig â bwyd. |
| Rhybudd Gwella | Rhybudd a gyflwynir gan Swyddog Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog busnes bwyd wneud gwaith addas i sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd neu brosesu bwyd. |
| Archwilio Rhyng-Awdurdod | System lle gall awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd ei gilydd yn erbyn safon ansawdd a gytunwyd. |
| Fforwm aelodau | Fforwm awdurdod lleol lle mae Aelodau'r Cyngor yn trafod ac yn penderfynu ar wasanaethau gorfodi cyfraith fwyd. |
| Ffurflenni CSRhB | Ffurflenni am weithgareddau gorfodi cyfraith fwyd lleol y mae'n ofynnol eu dychwelyd i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Swyddogol Rheoli Bwydydd. |
| Awdurdod Gwreiddiol | Awdurdod y mae busnes, yn ardal yr Awdurdod hwnnw, yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethu ac y mae'r Awdurdod yn gweithredu yn bwynt cyswllt canolog iddo o ran ymholiadau gan awdurdodau gorfodi eraill am y cynhyrchion hynny. |

| | |
|---|---|
| Awdurdod Iechyd Porthladd | Awdurdod lleol y ceir, oddi mewn i'w ffiniau, bwynt mynediad i'r DU ar gyfer bwydydd a fewnforir. |
| Dadansoddwr Cyhoeddus | Swyddog, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwyd yn gemegol. |
| Graddio risg | System sy'n graddio safleoedd bwyd yn ôl y risg ac yn pennu pa mor aml y dylid arolygu'r safleoedd hynny. Er enghraifft, dylid arolygu safleoedd hylendid bwyd uchel eu risg, o leiaf unwaith bob 6 mis. |
| Cynllun Gwasanaeth | Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n nodi ei gynlluniau ynghylch darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol. |
| Safonau Masnach | Yr Adran o fewn awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. |
| Swyddog Safonau Masnach (SSM) | Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gallu gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. |
| Awdurdod Unedol | Awdurdod lleol lle cyfunir yr holl swyddogaethau, er enghraifft Awdurdodau Cymreig a Bwrdeistrefi yn Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. |